Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cynllun Hepgor Ffioedd Israddedigion Rhan-amser Addysg Uwch

Mae'r fersiwn hon o'r fanyleb yn berthnasol i flwyddyn academaidd 2026/27

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

## Cynnwys

Cyflwyniad ... 3
Defnyddio'r ddogfen hon ... 3
Meini prawf cymhwysedd myfyrwyr ... 4
Meini prawf cymhwysedd cyrsiau ... 5
Gweinyddu'r cynllun ... 6
Newid mewn amgylchiadau ... 6
Monitro ac adhawlio cyllid ... 7
Hyrwyddo'r cynllun ... 7
Dyrannu a monitro ... 7
    Trefniadau monitro 2025/26 ... 7
    Trefniadau monitro 2026/27 ... 8
Proffil y Grant ... 8
    Dyraniadau talu ... 8
    Methodoleg ddyrannu ... 9
Amserlenni ... 9
Asesu effaith ein polisïau ... 9
Rhagor o wybodaeth ... 10

## Cyflwyniad

1. Mae'r canllawiau hyn yn rhoigwybodaeth am y Cynllun Hepgor Ffioedd Israddedigion Rhan-amser Addysg Uwch ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27, gan gynnwys y ffordd y caiff cyfanswm cyllid o £200k ei ddyrannu i sefydliadau, ac yn nodi'r meini prawf y bydd angen i fyfyrwyr eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i'w ffioedd gael eu hepgor o dan y cynllun.

2. Bydd cyllid ar gael yn ystod 2026/27 i gael ei weinyddu gan sefydliadau a ariennir gan Medr ar hyn o bryd, i fyfyrwyr sy'n bodloni meini prawf y cynllun, fel y'u hamlinellir yn y cylchlythyr hwn. Rhoddir cyllid er mwyn annog twf mewn niferoedd myfyrwyr rhan-amser a galluogi myfyrwyr rhan-amser i gael addysg uwch a chael budd o'r addysg honno.

3. Anogir sefydliadau i hysbysebu'r cyllid sydd ar gael yn eang er mwyn sicrhau y gall cynifer â phosibl o fyfyrwyr gael budd ohono a chofrestru ar gwrs rhan-amser sy'n bodloni meini prawf y cynllun ar gyfer cyrsiau.

## Defnyddio'r ddogfen hon

4. Nid oes newidiadau i'r ffordd y bydd y cynllun yn gweithredu yn ystod 2026/27 o gymharu â 2025/26.

5. Mae'r dyraniadau unigol i sefydliadau i'w gweld yn Atodiad A. O ran 2025/26, rydym wedi cynnwys terfyn isaf o £2.5k er mwyn sicrhau y bydd yr holl sefydliadau a ariennir yn gallu cael budd o'r cynllun. Fel o'r blaen, bydd terfyn uchaf o £50k ar waith yn ystod 2026/27 er mwyn sicrhau y caiff y cyllid ei ddosbarthu'n deg. Hefyd, pan fydd y terfynau uchaf ac isaf ar waith, caiff y cyllid sy'n weddill ei ailddosbarthu ar sail pro rata yn unol â'r defnydd o hepgor ffioedd yn 2024/25 yn seiliedig ar ddata wedi'u gwirio.

6. Mae'r dyraniadau hyn wedi cael eu cyfrifo ar sail pro rata yn unol â nifer y myfyrwyr yr ystyrir eu bod yn perthyn i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, gan ddefnyddio data a echdynnwyd o gofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Mae'r meini prawf canlynol wedi cael eu defnyddio fel procsi ar gyfer asesu p'un a ystyrir bod myfyriwr yn perthyn i grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch ai peidio: myfyrwyr yn y ddau gwintel isaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019; myfyrwyr o ardaloedd â lefelau cyfranogi isel mewn addysg uwch; gofalwyr, myfyrwyr sy'n gadael gofal neu fyfyrwyr â phrofiad o fod mewn gofal; myfyrwyr ag anableddau; myfyrwyr nad oes gan eu rhieni gymhwyster addysg uwch; myfyrwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

7. Caiff y dwysedd astudio ei fesur mewn gwerthoedd credydau fel arfer. Ni ddylid rhoi hepgoriad ffi i fyfyriwr sy'n astudio 30 o gredydau neu fwy mewn un flwyddyn academaidd. Mewn sefyllfa lle bo myfyriwr yn ymgymryd â llai na 30 o gredydau i ddechrau ond yna'n ychwanegu at hyn yn ystod y flwyddyn academaidd, ni fyddai unrhyw hepgoriad ffi a roddwyd yn cael ei ystyried yn rhan o'r cynllun. Fodd bynnag, byddem yn annog darparwyr i barhau i gynnig yr hepgoriad ffi hwnnw o ffynonellau eraill, lle bo modd, er mwyn peidio ag anghymell myfyrwyr sy'n penderfynu yr

hoffent astudio mwy o gredydau. Ym mhob achos, bydd rheoliadau academaidd sefydliadau'n berthnasol.

## Meini prawf cymhwysedd myfyrwyr

8. Rhaid i fyfyriwr sydd wedi'i gofrestru ar gwrs cymwys:

    (i) fod yn gymwys i gael cyllid yn unol â'r diffiniad a roddir yn yr arolwg Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch;
    (ii) bod â'i ddomisil yng Nghymru (byddai nodi cyfeiriad yng Nghymru fel arfer yn cael ei ystyried yn ddigon o dystiolaeth ei fod yn fyfyriwr sydd â'i ddomisil yng Nghymru).

    a bodloni un neu fwy o'r amodau canlynol:

    a) mae'r myfyriwr neu deulu'r myfyriwr [1] yn derbyn:
    Credyd Cynhwysol neu ei ragflaenwyr[2]
    Lwfans Ceisio Gwaith
    Employment and Support Allowance

    b) mae'r myfyriwr yn derbyn:
    Lwfans Gofalwr neu Gredyd Gofalwr
    Premiwm Anabledd neu gymorth ariannol arall sy'n gysylltiedig ag anabledd
    Budd-daliadau Profedigaeth [3]

    c) mae'r myfyriwr yn perthyn i grŵp yr ystyrir ei fod heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, er enghraifft:
    - myfyrwyr o bob oed sydd o ardaloedd yn y ddau gwintel isaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019
    - myfyrwyr o bob oed sydd o ardaloedd â lefelau cyfranogi isel fel y'u mesurir yn ôl cyfran yr oedolion o oedran gweithio sydd â chymwysterau addysg uwch o Gyfrifiad 2021 (y ddau gwintel isaf)
    - myfyrwyr sy'n gadael gofal neu fyfyrwyr â phrofiad o fod mewn gofal
    - myfyrwyr ag anableddau
    - myfyrwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol
    - myfyrwyr LHDTC+
    - ffoaduriaid a cheiswyr lloches
    - myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu
    - myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg

9. Y sefydliadau fydd yn gyfrifol am asesu cymhwysedd myfyrwyr sy'n gwneud cais am hepgor ffioedd, a llunio proses deg a chyfiawn ar gyfer gweinyddu cyllid o dan y

[1] At ddibenion maen prawf (a), mae'r diffiniad o 'deulu' fel a ganlyn: cwpl sy'n briod, mewn partneriaeth sifil neu'n ddi-briod, neu gwpl sy'n briod, yn ddi-briod neu mewn partneriaeth sifil ac sydd â phlant dibynnol, neu riant unigol sydd â phlant dibynnol.
[2] Budd-dal Tai, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Treth Plant, Credyd Treth Gwaith, lle mae'r rhain yn dal yn berthnasol.
[3] Mae gwybodaeth am y budd-daliadau a restrir uchod a'r diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y budd-daliadau hyn i'w gweld ar wefan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

cynllun. Ein bwriad cyffredinol yw y dylai sefydliadau ddyrannu cyllid i fyfyrwyr sy'n bodloni'r meini prawf uchod ac a fyddai'n cael budd o ymgymryd ag addysg uwch ran-amser. Mae gwybodaeth am adnabod grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch i'w gweld yng nghanllawiau Cynllun Ffioedd a Mynediad CCAUC.

## Meini prawf cymhwysedd cyrsiau

10. Er mwyn bodloni'r gofyniad i fod ar gwrs cymwys, rhaid i fyfyriwr:

(i) b astudio'n rhan-amser ar ddwysedd sy'n hafal i 3% neu'n fwy, ac sy'n llai na 25%, o ddwysedd myfyriwr cyfwerth ag amser llawn. Y diffiniad o astudio'n rhan-amser yw'r un a ddefnyddiwyd yn Arolwg Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch 2025/26. Caiff hyn ei fesur mewn gwerthoedd credydau o gymharu â blwyddyn safonol dybiedig o 120 o gredydau ar gyfer myfyriwr israddedig amser llawn ac felly mae'n gyfwerth ag astudio llai na 30 o gredydau yn ystod blwyddyn academaidd yr hepgoriad ffi. Os bydd unrhyw fyfyriwr yn astudio 30 neu fwy o gredydau yn ystod y flwyddyn academaidd, ni fydd yn gymwys ar gyfer y Cynllun Hepgor Ffioedd Rhan-amser Addysg Uwch mwyach, ond anogir darparwyr i barhau i gynnig yr hepgoriad ffi hwnnw o ffynonellau eraill.

Mae Medr yn cydnabod na fydd myfyrwyr rhan-amser o reidrwydd yn dilyn cwrs astudio ar sail blynyddoedd academaidd traddodiadol. Fodd bynnag, er symlrwydd gweinyddol bydd y cynllun grantiau'n seiliedig ar y flwyddyn academaidd ar gyfer darparwyr addysg uwch[4].

(ii) bod wedi'i gofrestru, fel myfyriwr newydd yn 2026/27 neu fel myfyriwr sy'n parhau, ar raglen gyda'r nod o ennill cymhwyster addysg uwch israddedig cydnabyddedig [5]; neu ar gwrs, modiwl neu uned (gan gynnwys darpariaeth microgymhwyster) sy'n galluogi myfyrwyr i ennill credydau a allai gyfrif tuag at gymhwyster addysg uwch israddedig cydnabyddedig. Dylai sefydliadau gysylltu â Medr i gael eglurhad os bydd unrhyw amheuaeth ynghylch yr hyn sy'n cael ei ystyried o fewn y cwmpas.

Nid yw cyrsiau di-gredyd na chyrsiau ôl-radd yn gymwys ar gyfer y cynllun.

Ni fydd myfyrwyr yn gymwys i gael cyllid i ailsefyll cwrs nac unrhyw fodiwlau neu unedau o fewn cwrs, ac eithrio mewn achosion lle y gall amgylchiadau lleihaol fod yn berthnasol. Dylai darparwyr gysylltu â Medr i gael eglurhad yn yr achosion hyn.

(iii) astudio ar gwrs sy'n cyfateb i bum gwerth credyd [6] neu fwy fel y'i diffinnir gan y Fframwaith Credydau a Chymwysterau (FfCChC).

---

[4] Y cyfnod o 1 Awst tan 31 Gorffennaf yw'r flwyddyn academaidd.
[5] Gweler Atodiad B i Medr/2025/33: Arolwg Ystadegau Cynnar Myfyrwyr Addysg Uwch 2025/26.
[6] Caiff gwerthoedd credydau eu pennu ar sail yr hyn sy'n safonol yn FfCChC, sef bod 120 o werthoedd credydau yn gyfwerth â blwyddyn academaidd o brofiad addysg uwch i israddedigion amser llawn.

## Gweinyddu'r cynllun

11. Er mwyn i sefydliad roi cyllid i fyfyrwyr drwy'r cynllun hepgor ffioedd, rhaid i'r darparwr fod yn fodlon bod y meini prawf cymhwysedd wedi cael eu bodloni o ran (i) cwrs y myfyriwr, ac (ii) amgylchiadau personol y myfyriwr.

12. Dylai sefydliadau gofnodi'r meini prawf cymhwysedd cyn i ffioedd gael eu hepgor. Os oedd dogfennaeth yn ofynnol er mwyn profi cymhwysedd i gael hepgoriad ffi (e.e. derbyn budd-daliadau), dylai'r darparwr gadw tystiolaeth o'r ddogfennaeth honno at ddibenion archwilio. Mae'n bosibl y bydd Medr yn dymuno archwilio'r meini prawf cymhwysedd a ddefnyddir a'r dystiolaeth a gesglir yn nes ymlaen, yn ogystal â monitro gan ddefnyddio data HESA ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

13. Ar ddechrau rhaglen astudio y dylid asesu statws myfyriwr fel arfer. Wedyn, dylid ei ailasesu o leiaf unwaith bob 12 mis ar ôl hynny, drwy gydol y cyfnod astudio.

14. Dim ond ffioedd dysgu sy'n gymwys i gael eu hepgor. Ni fydd costau unrhyw ffioedd asesu neu arholi sy'n ychwanegol at y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y ffioedd dysgu yn gymwys o dan y cynllun hwn.

15. Caiff sefydliadau a ariennir sy'n cynnig hepgoriadau ffioedd o dan y cynllun hwn eu cefnogi drwy gyllid gan Medr. Rydym yn annog darparwyr i weithredu a hyrwyddo cynlluniau eraill er mwyn recriwtio a chefnogi myfyrwyr rhan-amser, er enghraifft drwy ddefnyddio trefniadau cymorth a nodir mewn cynlluniau ffioedd a mynediad.

16. Bydd rhai achosion ar ymylon y meini prawf cymhwysedd a nodir uchod. Mewn achosion o'r fath, os bydd y darparwr o'r farn ei bod yn amlwg y byddai hepgor ffi yn cyflawni diben cyffredinol y cynllun, gall darparwyr arfer disgresiwn rhesymol wrth brofi cymhwysedd myfyrwyr. Mae'n bwysig bod y sefydliad yn cofnodi'r rheswm dros arfer disgresiwn, gan ei bod yn bosibl y bydd Medr yn archwilio hyn yn nes ymlaen.

17. Dim ond er mwyn helpu i hepgor ffioedd dysgu ar gyfer y myfyrwyr hynny y tybir eu bod yn gymwys ar gyfer y Cynllun Hepgor Ffioedd Israddedigion Rhan-amser Addysg Uwch, fel y nodir uchod, ac o fewn y cyfanswm cyllid sydd ar gael, y gellir darparu cyllid. Gellir hepgor ffioedd hyd at gost lawn ffioedd dysgu'r cwrs, neu'n rhannol. Rhaid i'r holl grantiau a delir gael eu defnyddio at y dibenion y cânt eu rhoi ar eu cyfer.

## Newid mewn amgylchiadau

18. Os bydd newid sylweddol mewn amgylchiadau, mae'n bosibl y daw myfyriwr yn gymwys ar gyfer hepgor ffioedd, neu na fydd yn gymwys mwyach, yn ystod cyfnod astudio. Mewn achos o'r fath, dylai'r darparwr geisio hepgor, ad-dalu neu hawlio ffioedd, fel y bo'n briodol. Dylai darparwyr ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr roi gwybod iddynt os bydd newid sylweddol o'r fath yn eu hamgylchiadau.

19. Gall myfyriwr benderfynu newid o ddull astudio amser llawn i ddull astudio rhan-amser. Os bydd y newid hwn mewn statws yn golygu y bydd y myfyriwr yn bodloni'r

meini prawf cymhwysedd, dylai'r myfyrwyr allu cael budd o'r cynllun lle bo hynny'n ymarferol. Rhaid ymdrin ag achos o'r fath yn yr un modd ag unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau.

## Monitro ac adhawlio cyllid

20. Bydd yn ofynnol i sefydliadau ddychwelyd y data sy'n gysylltiedig â hepgor ffioedd rhan-amser ar gofnod myfyrwyr HESA, fel y disgrifir ym mharagraffau 22-29 isod. Os na fydd sefydliadau wedi gwario eu dyraniad hepgor ffioedd yn 2026/27, bydd Medr yn adhawlio'r cyllid.

## Hyrwyddo'r cynllun

21. Byddem yn disgwyl i ddarparwyr hyrwyddo cyfleoedd i hepgor ffioedd ar gyfer y myfyrwyr hynny y bwriedir i'r polisi hwn eu cefnogi, yn enwedig myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch.

## Dyrannu a monitro

### Trefniadau monitro 2025/26

22. Nid ydym wedi monitro'r hepgoriadau ffioedd a roddwyd o dan gynllun 2025/26 eto, felly rydym yn cynnwys manylion y ffordd y byddwn yn gwneud hynny gan ddefnyddio data cofnod myfyrwyr HESA yma. Er mwyn monitro hepgoriadau ffioedd rhan-amser 2025/26, byddwn yn echdynnu data a ddychwelir gan ddarparwyr ar gofnod myfyrwyr HESA ac yn cymharu gwerth gwirioneddol yr hepgoriadau ffioedd â'r dyraniad a roddwyd ar gyfer 2025/26. Os bydd gwerth gwirioneddol yr hepgoriadau ffioedd yn llai na'r dyraniad a roddwyd, caiff cyllid ei adhawlio.

23. Caiff y data eu hechdynnu fel rhan o'r broses pan fydd darparwyr yn cyflwyno cofnod myfyrwyr HESA i Jisc.0 Bydd darparwyr yn cael allbwn a gynhyrchir gan Medr drwy'r Gwasanaeth Rhyngwyneb Adrodd Gwybodaeth (IRIS). Bydd hyn yn cynnwys tabl monitro hepgor ffioedd rhan-amser lawrlwythadwy i'w wirio. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gymeradwyo'r data yn y tabl hwnnw â llofnod electronig.

24. Dylai darparwyr nodi ar y tabl ac yn eu neges e-bost eglurhaol unrhyw newidiadau i'r data y byddant wedi'u cymeradwyo er mwyn rhoi cyfrif am wallau yn y data a dychwelyd y tabl i Medr, ynghyd ag esboniad o'r newid, fel rhan o'r broses ehangach o ddychwelyd allbynnau IRIS wedi'u llofnodi. Dylai newidiadau i'r tabl gael eu gwneud mewn coch. Rhaid i'r tabl lawrlwythadwy a gaiff ei gymeradwyo gael ei gymryd o'r allbwn IRIS terfynol a gynhyrchir ar sail y data HESA terfynol (wedi'u cymeradwyo) a gyflwynir i Jisc.

25. Mae'r tabl lawrlwythadwy yn dangos gwybodaeth am swm y ffi a hepgorwyd [7] lle y nodir bod ffi wedi cael ei hepgor [8]. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar wefan HESA yn

[7] Maes HESA StudentFinancialSupport.FINSUPAMOUNT
[8] Maes HESA StudentFinancialSupport.FINSUPTYPE

llawlyfr codio'r cofnod myfyrwyr. Dylai aelodau o staff sy'n gyfrifol am y cynllun hepgor ffioedd rhan-amser gysylltu â'r pwynt(iau) cyswllt ar gyfer cofnod myfyrwyr HESA yn eu sefydliad er mwyn iddynt allu lawrlwytho'r dadansoddiad a chraffu arno, gwirio cysondeb a chwilio am anomaleddau y gall fod angen eu hesbonio. Pan fydd darparwyr yn fodlon ar y data ac unrhyw esboniadau a newidiadau gofynnol, dylent roi llofnod electronig o dan y tabl ac e-bostio'r copi wedi'i lofnodi atom. Dylai'r tabl gael ei lofnodi gan y llofnodwr awdurdodedig ar gyfer y data hepgor ffioedd rhan-amser. Caiff enwau'r llofnodwyr awdurdodedig eu casglu'n flynyddol oddi wrth ddarparwyr yn yr hydref.

26. Er mwyn croesgyfeirio, byddwn hefyd yn dadansoddi data HESA pan fyddwn yn cael data terfynol o gofnod myfyrwyr HESA wedi'u cymeradwyo ar gyfer yr holl ddarparwyr.

27. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn y cylchlythyr Gofynion Data a gaiff ei gyhoeddi ym mis Awst 2026.

28. Dylid dychwelyd y tabl IRIS wedi'i lofnodi i Medr erbyn 4 Rhagfyr 2028 yn YstadegauAU@medr.cymru.

### Trefniadau monitro 2026/27

29. Bydd hepgoriadau ffioedd ar gyfer 2026/27 hefyd yn cael eu monitro gan ddefnyddio data cofnod myfyrwyr HESA a echdynnir drwy broses IRIS, yn yr un modd ag ar gyfer hepgoriadau ffioedd a ddyfarnwyd ar gyfer 2025/26.

## Proffil y Grant

### Dyraniadau talu

30. Cyfanswm yr arian sydd ar gael i'w ddyrannu yw £200,000.

| Darparwr | Cyfanswm y cyllid (£) |
|---|---:|
| Prifysgol De Cymru | 9,184 |
| Prifysgol Aberystwyth | 22,858 |
| Prifysgol Bangor | 2,570 |
| Prifysgol Caerdydd | 50,000 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 3,569 |
| Prifysgol Abertawe | 2,500 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 9,029 |
| Prifysgol Wrecsam | 32,669 |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | 50,000 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 5,621 |
| Grŵp NPTC | 2,500 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 2,500 |
| **Cyfanswm** | **200,000** |

## Methodoleg ddyrannu

31. Y meini prawf a ddefnyddir i gynhyrchu'r dyraniad (e.e. bydd data cofnod myfyrwyr HESA 2025/26 yn cael ei ddefnyddio i ddyrannu'r hepgoriad ffioedd rhan-amser ar gyfer 2027/28):

- Cyllidadwy gan Medr
- Israddedig rhan-amser, nid myfyrwyr cyfnewid o dramor
- Ymgysylltiad myfyriwr CagALI ≥ 3 a < 25
- Mae'r myfyriwr yn weithredol yn ystod y cyfnod adrodd ac nid yw ym mlwyddyn olaf cwrs â blwyddyn academaidd ansafonol

32. Ac yna rhaid bodloni o leiaf un o'r canlynol:

- Cod post cartref wedi'i fapio i Ch1/Ch2 MALlC (mesur o amddifadedd)
- Cod post cartref wedi'i fapio i Ch1/Ch2 Cyfranogiad Oedolion mewn AU (mesur o gyfranogiad isel)
- ethnigrwydd hysbys nad yw'n wyn
- anabledd hunanddatganedig
- gofalwr/rhywun sy'n gadael gofal
- nid oes gan y rhiant gymhwyster AU

## Amserlenni

33. Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r brif amserlen o ddigwyddiadau:

| Dyddiad | Cam gweithredu |
|---|---|
| Rhagfyr 2026 | Y darparwyr yn lawrlwytho'r tabl monitro hepgor ffioedd rhan-amser o'r allbwn IRIS terfynol ar gyfer 2025/26 ac yn ei gyflwyno i Medr ynghyd ag unrhyw newidiadau neu esboniadau gofynnol er mwyn iddo ddangos gwerth gwirioneddol hepgoriadau ffioedd ar gyfer myfyrwyr 2025/26. Dylai'r tabl gael ei lofnodi'n electronig gan y llofnodwr awdurdodedig ar gyfer y data hepgor ffioedd rhan-amser, a'i e-bostio i Medr erbyn 4 Rhagfyr 2026.<br>Bydd y data y disgwylir iddynt gael eu defnyddio ar gyfer dyraniadau 2027/28 hefyd ar gael i'w cymeradwyo fel rhan o allbynnau IRIS. |
| O fis Ionawr 2027 ymlaen | Medr yn gwneud addasiadau i ddyraniadau 2025/26 yn dilyn gwaith monitro. Caiff dyraniadau 2027/28 eu cyfrifo gan ddefnyddio data allbwn IRIS, os bydd hynny'n briodol. |

## Asesu effaith ein polisïau

34. Fel rhan o'r broses wreiddiol o ddatblygu'r polisi, gwnaethom gynnal asesiad effaith er mwyn ystyried effaith y cynllun hwn ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig a grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch;

rydym yn adolygu'r asesiad effaith hwn yn rheolaidd. Byddwn yn parhau i ystyried effaith ein polisïau er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn addysg uwch, ac ystyried yr effaith ar y Gymraeg, ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r effeithiau posibl ar y nodau a'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

35. Bydd darparwyr yn gyfrifol am adolygu eu hasesiadau effaith eu hunain mewn perthynas â chyllid rhan-amser, gan ystyried yr effaith ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig, a helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu.

## Rhagor o wybodaeth

36. Ar gyfer ymholiadau technegol am IRIS, e-bostiwch YstadegauAU@medr.cymru. Ar gyfer pob ymholiad arall, cysylltwch â BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government